# Bingo Pryfed



## Amcanion dysgu:

Dysgu enwau pryfed y gellir eu canfod yn yr ardd neu'r ardal leol.

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Bywyd Gwyllt Bendigedig

## Gwybodaeth ymarferydd:

Mae bwystfilod bach yn chwarae rhan bwysig iawn yn ein byd, er eu bod yn fach ac yn hawdd eu hanwybyddu.

Mae gwenyn a pili pala yn helpu planhigion a blodau i dyfu drwy eu peillio. Mae buchod coch cwta yn cadw pryfed gleision dan reolaeth, gan ddiogelu ein ffrwythau a'n llysiau. Mae mwydod a chwilod yn gwella'r pridd, gan helpu mwy o fwyd i dyfu, tra bod pryfed cop yn helpu i reoli pryfed a thrychfilod eraill.

Gall cymryd amser i wylio a dysgu am y creaduriaid yn ein cartrefi a'n gerddi helpu plant i deimlo'n fwy cysylltiedig â natur. Mae hefyd yn eu hannog i ofalu am fywyd gwyllt ac i edrych ar ôl y mannau lle mae'r pryfed bach hyn yn byw.

## Sut i chwarae:

Yn gyntaf, bydd angen i chi argraffu'r cardiau bingo, y cardiau galw a'r tocynnau. Rydym yn awgrymu eich bod yn lamineiddio er mwyn sicrhau hirhoedledd

Torrwch y tabl o sgwariau gwyn, dyma fydd y cownteri. Plant i'w gosod dros y pryf pan fydd yn cyfateb.


Torrwch y tabl o'r naw pryfyn, dyma fydd eich cardiau galw.

Rhowch gerdyn chwarae i bob plentyn sydd eisiau chwarae gyda chwech o'r pryfed arno.

Rhowch yr holl gardiau galw wyneb i lawr a'u cymysgu.

Trowch un o'r cardiau drosodd ar y tro gan ddweud enw'r pryfyn.

Os oes gan y plant y pryfyn hwnnw ar eu cerdyn, gallant osod tocyn arno a galw ei enw allan.



**Yr enillydd yw'r person cyntaf i gael pob un o'r chwe phryfyn!**

# Cardiau bingo








































Gwlithen

Buwch Goch
Gota

Glöyn byw

Pryf Cop

Gwenynen

Neidr gantroed

Pryf Genwair

Malwen

Pryf Lludw

Neidr gantroed

Pryf Cop

Gwenynen

Buwch Goch
Gota

Pryf Genwair

Glöyn byw

Malwen

Gwlithen

Pryf Lludw

# Cardiau galw




























| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Anogwch y plant i ddweud enwau'r pryfed wrth eu paru. Wrth iddynt alw enwau'r pryfed allan rhannwch y ffeithiau diddorol hyn gyda nhw.

Eco-Tots Cymru

**Malwod** – mae malwod gardd yn cario eu cartref ar eu cefn, ac os ydyn nhw'n tyfu'n fwy, mae eu plisgyn yn tyfu gyda nhw.

**Gwlithod** – mae gwlithod yn gadael llwybrau llysnafeddog ble bynnag maen nhw'n mynd, ac maen nhw'n gwneud baw o ochr eu pen.

**Buchod coch cwta** – mae buchod coch cwta yn dod mewn llawer o liwiau, nid coch yn unig.

**Gloÿnnod byw** – mae gloÿnnod byw yn blasu gyda'u traed.

**Nadroedd cantroed** – mae nadroedd cantroed yn tyfu mwy o goesau wrth iddynt fynd yn fwy ac yn hŷn.

**Pryfed lludw** – mae rhai pryfed lludw yn cyrlio'n bêl pan fyddant yn ofnus.

**Pryfed cop** – mae gan bryfed cop wyth coes ac mae gan rai hyd yn oed wyth llygad.

**Gwenyn meirch** – mae gan wenyn meirch bum llygad ac maen nhw'n crynu i gadw eu hunain yn gynnes.

**Mwydod** – mae gan fwydod bum calon, ond dim llygaid na dannedd.



cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

The Moondance Foundation

Bywyd Gwyllt Bendigedig